

Heriau i'r sector diwylliant – cynaliadwyedd ariannol yn Chwaraeon Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4761A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn ac â beth y mae a wnelo.....	4
Casgliad ar y cyfan	5
Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol.....	5
Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol	9
Argymhellion	14
Ynglŷn â'n gwaith.....	15
Y sefyllfa ariannol yn Chwaraeon Cymru	18

Adroddiad cryno

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn ac â beth y mae a wnelo

- 1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Chwaraeon Cymru bennu amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at lesiant Cymru, yn awr a thros y tymor hwy. Rhaid iddo hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio pa un a yw Chwaraeon Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹ wrth bennu ei amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o'n harchwiliad o gamau y mae Chwaraeon Cymru'n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant². Mae wedi canolbwyntio ar y pwysau ariannol sylweddol y mae Chwaraeon Cymru'n eu profi. Mae'r pwysau hynny'n cynnwys costau cynyddol a gostyngiad yn ei gymorth grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Maent yn dwyn goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol y sefydliad a'i allu i gyflawni ei amcanion llesiant. Gall cynllunio ariannol effeithiol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy helpu i reoli'r materion hyn.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan Chwaraeon Cymru drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a hwy, i ategu ei amcanion llesiant. Mae'n rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu cyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru yn y sector diwylliant. Fe wnaethom gymhwyso'r un cwestiynau a meini prawf archwilio cyffredinol ym mhob corff. Fodd bynnag, fe wnaeth ein gweithgarwch casglu a dadansoddi tystiolaeth ystyried ffactorau cyddestunol ar gyfer pob corff, gan gynnwys gwahaniaethau mewn swyddogaethau ac yn eu hamgylchedd ariannol. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n sylfaen dystiolaeth.
- 4 Fe wnaethom baratoi'r adroddiad hwn cyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Rydym yn gobeithio y bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn ddefnyddiol i Chwaraeon Cymru wrth iddo gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

¹ Mae'r Ddeddf yn nodi bod gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu bod rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. I wneud hynny, rhaid i gorff ystyried pum ffordd o weithio, a grynhoir fel hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal.

² Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru ei strategaeth 10 mlynedd yn 2019. Mae'r strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ac yn cynnwys chwe 'datganiad o friad strategol'. Ceir disgrifiad o'r deilliannau y mae Chwaraeon Cymru'n ceisio eu cyflawni i ategu pob datganiad. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau a'r disgrifiadau'n gweithredu fel amcanion llesiant Chwaraeon Cymru.

Casgliad ar y cyfan

- 5 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad canlynol:
- Fe gynyddodd incwm a gwariant blynyddol Chwaraeon Cymru rhwng 2019-20 a 2023-24, yn bennaf oherwydd grantiau penodol am amser cyfyngedig. Er bod ei gymorth grant wedi cynyddu ychydig mewn termau real rhwng 2020-21 a 2023-24, fe ostyngodd ei brif incwm o'r loteri. Wedyn bu toriad sylweddol yn nhermau arian parod ac mewn termau real i'r cymorth grant ar gyfer 2024-25.
 - Mae gan Chwaraeon Cymru ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol ac fe ymdriniodd â phwysau 2024-25 mewn ffordd a liniarodd yr effaith ar bartneriaid chwaraeon yn y tymor byr. Datblygodd gynllun ariannol tymor canolig yn ddiweddar ond byddai ehangu hwn i gynnwys ffactorau ehangach yn ategu penderfyniadau yn y dyfodol.
- 6 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn darparu rhagor o fanylion am ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol

Fe gynyddodd incwm a gwariant blynyddol Chwaraeon Cymru rhwng 2019-20 a 2023-24, yn bennaf oherwydd grantiau penodol am amser cyfyngedig. Er bod ei gymorth grant wedi cynyddu ychydig mewn termau real rhwng 2020-21 a 2023-24, fe ostyngodd ei brif incwm o'r loteri. Wedyn bu toriad sylweddol yn nhermau arian parod ac mewn termau real i'r cymorth grant ar gyfer 2024-25

- 7 Mae **paragraffau 8 i 26** yn darparu trosolwg gyffredinol o nodweddion allweddol ar sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru. Daw'r data yr adroddir arno o ddatganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2023-24 yn bennaf. Mae cyfres o arddangosion yn **Atodiad 2** yn darparu manylion ychwanegol.

Incwm

- 8 Yn 2023-24, £52.8 miliwn oedd cyfanswm incwm Chwaraeon Cymru. Daw ei brif gyllid gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf ar ffurf cymorth grant³, ac o Gronfa

³ Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r term incwm cymorth grant i gyfeirio at y refeniw a'r cyfalaf mewnol y mae Chwaraeon Cymru'n eu cael gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhai elfennau am amser cyfyngedig, megis cymorth gyda chostau byw. Nid ydym wedi cynnwys grantiau refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n eistedd y tu allan i gymorth grant, sydd hefyd am amser cyfyngedig neu'n gyfyngedig neu'r ddau.

Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF). Yn 2023-24, roedd incwm cymorth grant yn £23.8 miliwn ac roedd enillion o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn gyfanswm o £16.3 miliwn⁴.

- 9 Mae incwm Chwaraeon Cymru yn eistedd mewn dau gyfrif ar wahân. Mae cymorth grant a chyllid arall gan Lywodraeth Cymru'n eistedd yn ei brif gyfrif⁵. Mae incwm Cronfa Datblygu'r Loteri Genedlaethol yn eistedd yng nghronfa ddosbarthu'r loteri.
- 10 Mae incwm Chwaraeon Cymru hefyd yn cynnwys swm cymharol fach o incwm y mae'n ei greu, yn bennaf o'i ganolfannau chwaraeon cenedlaethol. Mae hwn yn eistedd yn ei brif gyfrif.
- 11 Bu codiadau sylweddol yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar ôl 2019-20. Roeddent yn bennaf oherwydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na chodiadau i gymorth grant craidd. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi incwm y prif gyfrif rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 12 Cynyddodd cymorth grant o £21.4 miliwn yn 2019-20 i £24.6 miliwn yn 2021-22. Wedyn gostyngodd ychydig bach yn 2022-23 a 2023-24. Fe gyfrifom ni fod Chwaraeon Cymru wedi cael £0.9 miliwn yn fwy mewn cymorth grant rhwng 2020-21 a 2023-24 na phe bai wedi codi yn ôl yr un gyfradd â chwyddiant ar ôl 2019-20⁶. Roedd cymorth grant hefyd yn cynnwys rhai elfennau am amser cyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r incwm cymorth grant gwirioneddol ochr yn ochr â'r gymhariaeth hon mewn termau real.
- 13 Yn 2020-21, cafodd Chwaraeon Cymru £13.8 miliwn o gyllid o'r Gronfa Adfer Chwaraeon⁷. Fe gyfrannodd hwn at gynnydd yng nghyfanswm ei gyllid gan Lywodraeth Cymru o £23 miliwn yn 2019-20 i £41.4 miliwn yn 2020-21. Yn 2021-22, cafodd Chwaraeon Cymru ddryniad pellach o £1.9 miliwn o'r Gronfa Adfer Chwaraeon.
- 14 Cafodd Chwaraeon Cymru gyllid grant cyfalaf sylweddol⁸ hefyd rhwng 2020-21 a 2023-24. Roedd hwn yn gyfanswm o £32.2 miliwn, gan amrywio rhwng £3.0 miliwn ac £11.6 miliwn y flwyddyn. Ni chafodd unrhyw gyllid cyfalaf yn 2019-20.

⁴ Cyfran o enillion o'r loteri genedlaethol yw'r rhan fwyaf o incwm Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r elfennau ychwanegol o gyllid Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cynnwys 'adenillion ar fuddsoddiad' ynghyd ag 'incwm arall'. Darparodd yr elfennau ychwanegol incwm o £996,000 yn 2023-24.

⁵ Mae Chwaraeon Cymru'n cyfeirio at hwn fel y cyfrif 'trysorlys'.

⁶ Ar gyfer ein dadansoddiad mewn termau real, fe ddefnyddiom ni ddatchwyddyddion GDP Trysorlys EF yn ôl prisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Fe seiliom ni ein cyfrifiad ar gyfanswm y cymorth grant a gafodd Chwaraeon Cymru bob blwyddyn.

⁷ Fe wnaeth Cronfa Adfer Chwaraeon Llywodraeth Cymru helpu'r sector chwaraeon gydag effeithiau pandemig COVID-19. Dosbarthodd Chwaraeon Cymru gyfran sylweddol o'r cyllid hwn i sefydliadau chwaraeon eraill.

⁸ Mae'r cyllid cyfalaf hwn yn benodol ar gyfer adeiladau a seilwaith y partneriaid yn y sector chwaraeon y mae Chwaraeon Cymru'n eu cyllido.

- 15 Nid yw union swm yr incwm y mae Chwaraeon Cymru'n ei gael o enillion Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi ei warantu ond y sail ar ei gyfer yw bod Chwaraeon Cymru'n cael 0.9% o Gronfa Achosion Da'r Loteri. Fe gynyddodd enillion Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn 2020-21 a 2021-22 cyn gostwng yn y ddwy flynedd ganlynol. Roedd enillion 2023-24 yn is nag yn 2019-20.
- 16 Fe gyfrifom ni fod Chwaraeon Cymru wedi cael £6.3 miliwn yn llai o enillion Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol rhwng 2020-21 a 2023-24 na phe baent wedi codi yn ôl yr un gyfradd â chwyddiant ar ôl 2019-20. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi cyllid Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol dros y blynyddoedd hyn ochr yn ochr â'r gymhariaeth hon mewn termau real.

Gwariant

- 17 Mae Chwaraeon Cymru'n ailddosbarthu cryn dipyn o'i incwm i gyllido chwaraeon ledled Cymru. Mae'n dosbarthu grantiau i 'bartneriaid', sy'n cynnwys cyrff llywodraethu cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol, awdurdodau lleol/partneriaethau chwaraeon.
- 18 Yn 2023-24, roedd cyllid grant i bartneriaid yn 70% o wariant y prif gyfrif. Yn yr un flwyddyn, aeth 84% o holl wariant Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar grantiau i bartneriaid. Defnyddiwyd gweddill y gwariant i gyllido costau cymorth, megis staffio a gweinyddu trefniadau rheoli.
- 19 Ynghyd â'r codiadau mewn incwm y cyfeirir atynt uchod cafwyd codiadau cyfatebol mewn gwariant, yn bennaf oherwydd gweithgareddau a gyllidwyd â grantiau yn 2020-21 a 2021-22. Mae **Arddangosion 6 a 7** yn nodi cyfanswm y gwariant yn ôl math.
- 20 Gostyngodd niferoedd y staff rhwng 2019-20 a 2023-24. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 146 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn yn 2023-24 o'i gymharu â 160 yn 2019-20⁹. Roedd costau staff oddeutu 20% o gymorth grant yn 2023-24, o'i gymharu â 30% yn 2019-20.

Balansau a chronfeydd wrth gefn

- 21 Gall Chwaraeon Cymru gario balans arian parod o ddim mwy na 2% o'i gymorth grant drosodd o ddiwedd un flwyddyn i'r nesaf. Nid oes gan Chwaraeon Cymru gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig y gellid eu defnyddio fel arall i helpu i reoli heriau ariannol, megis gostyngiadau mewn cymorth grant.
- 22 Mae'r sefyllfa ar gyfer incwm y loteri'n wahanol. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan gronfa ddosbarthu'r loteri gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy o £4.8 miliwn (2023: £12.3 miliwn). Gall Chwaraeon Cymru ddefnyddio hon i gyllido prosiectau sy'n cyd-

⁹ Mae Chwaraeon Cymru'n dosrannu costau staff rhwng ei brif gyfrif a chronfa ddosbarthu'r loteri.

fynd â chyfeiriadau polisi cyffredinol y loteri. Mae gan Chwaraeon Cymru bolisi o wario i leihau balans y loteri.

Newidiadau mewn cymorth grant ar gyfer 2024-25 a 2025-26

- 23 Cafodd Chwaraeon Cymru doriad sylweddol i'w gymorth grant ar gyfer 2024-25. Cyfrifodd fod ei ddryniad cychwynnol o £21.0 miliwn 9% yn llai na'i ddryniad cychwynnol ar gyfer 2023-24 (ac ar ôl hynny cafodd gyllid pellach yn ystod y flwyddyn). Datganodd papur ar y gyllideb ym mis Chwefror 2024 ei fod wedi cael toriad o 10.5% i'w gymorth grant o'i gymharu â'r swm yn y gyllideb tair blynedd ddangosol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi iddo ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25.
- 24 Cafodd Chwaraeon Cymru gyllid refeniw anghylchol ychwanegol o £1.0 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2024, a drosglwyddodd yn llawn i bartneriaid. Fe wnaeth y dryniad hwn yn ystod y flwyddyn wneud iawn am rywfaint o'r gostyngiad mewn cyllid cymorth grant ar gyfer 2024-25 a'i effaith ar y sector chwaraeon ehangach. Fodd bynnag, mae Chwaraeon Cymru wedi nodi hefyd bod dryniadau anghylchol yn ystod y flwyddyn yn ei gwneud yn anos meddwl yn strategol ynglŷn â sut i ddefnyddio'r cyllid ac yn achosi ansicrwydd i'r sector chwaraeon.
- 25 Cwblhaodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliad yn ddiweddar i effaith gostyngiadau mewn cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru¹⁰. Nid yw ein harchwiliad ni'n dod i unrhyw gasgliadau ynghylch lefelau cyllid ac yn lle hynny mae'n canolbwyntio ar sut y mae Chwaraeon Cymru'n ymateb i heriau ariannol. Rydym yn nodi bod yr ymchwiliad wedi cyfrifo, wrth edrych yn ôl dros gyfnod o 10 mlynedd hyd at 2024-25, bod cyllid cymorth grant refeniw a chyfalaf Chwaraeon Cymru wedi gostwng 9% mewn termau real.
- 26 Ar adeg ysgrifennu, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 sy'n darparu dryniad cymorth grant o £23.1 miliwn i Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn gynydd o 10% o'i gymharu â'r £21.0 miliwn mewn cymorth grant a ddyfarnwyd ar gyfer 2024-25, ac yn gynydd o 3.6% o'i gymharu â'r £22.3 miliwn a ddyfarnwyd ar gyfer 2023-24. O ystyried amseriad ein hadolygiad, nid ydym wedi ystyried sut y mae Chwaraeon Cymru'n ymateb i hyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

¹⁰ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025

Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Mae gan Chwaraeon Cymru ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol ac fe ymdriniodd â phwysau 2024-25 mewn ffordd a liniarodd yr effaith ar bartneriaid chwaraeon yn y tymor byr. Datblygodd gynllun ariannol tymor canolig yn ddiweddar ond byddai ehangu hwn i gynnwys ffactorau ehangach yn ategu penderfyniadau yn y dyfodol

Mae gan Chwaraeon Cymru ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol a'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol ac mae wedi ymgysylltu â'r cyrff y mae'n eu cyllido i ddeall eu risgiau

- 27 Gall asesiad cadarn o'r sefyllfa a'r rhagolygon ariannol helpu i sicrhau dull cynllunio ariannol gwybodus, strategol. Mae dealltwriaeth gyson am y sefyllfa honno ar draws yr uwch dîm arwain yn gallu helpu i sicrhau cydberchnogaeth ar y dull. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo pwysau sylweddol ar gyllid a phan all fod angen gwneud penderfyniadau anodd.
- 28 Mae gan Chwaraeon Cymru ddealltwriaeth ddatblygedig am ei sefyllfa ariannol. Mae'n cyflwyno gwybodaeth ariannol eglur i'w Fwrdd. Roedd gan uwch aelodau o staff y siaradom ni gyda hwy ddealltwriaeth gyson am yr heriau ariannol. Fe ddisgrifion nhw bwysau allweddol ar gostau, er enghraifft, a oedd yn ymwneud â dyfarniadau cyflog a chostau ynni.
- 29 Fe ddangoson nhw ymwybyddiaeth o'r opsiynau ar gyfer lleihau gwariant a'r heriau cysylltiedig hefyd. Er enghraifft, roeddent yn cydnabod pwysigrwydd diogelu cyllid grant i bartneriaid i helpu i gyflawni'r amcanion llesiant a gwireddu'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Ar yr un pryd, fe ddisgrifion nhw sut y mae disgresiwn i leihau costau eraill yn gyfyngedig am bod hynny ynghlwm wrth gontractau, gofynion deddfwriaethol, a rheoli risgiau megis diogelu.
- 30 Mae Chwaraeon Cymru'n cofnodi ac yn monitro risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol trwy'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys natur anrhagweladwy cyllid cymorth grant.
- 31 Nid yw'r risgiau yn y gofrestr risgiau corfforaethol yn gyfyngedig i newidiadau mewn cyllid ac maent yn cwmpasu'r rhai â goblygiadau ariannol mwy anuniongyrchol, er enghraifft sut y gall y costau byw cynyddol effeithio'n andwyol ar y sector ac, yn ei dro, lleihau mynediad at chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn effro i'r potensial ar gyfer newidiadau yn y cyllid a allai ddeillio o'r newid i weithredwr y loteri.

- 32 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael y gofrestr risgiau corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd chwarterol, gyda diweddariad ar drefniadau rheoli risg. Caiff y risgiau eu nodi ym mhapurau'r Bwrdd ac yn y cyfrifon blynyddol hefyd. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cofnodi risgiau sy'n ymwneud â'r swyddogaeth gyllid mewn cofrestr risgiau a neilltuir i risgiau o ran cyllid.
- 33 Mae rheolwyr perthnasoedd Chwaraeon Cymru'n ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid i ddeall eu risgiau ariannol, gan gynnwys trwy rwydwaith ar-lein. Mae Chwaraeon Cymru eisoes yn cydweithio gyda phartneriaid i gefnogi eu cynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys eu helpu i adnabod arbedion effeithlonrwydd posibl.

Fe ymdriniodd Chwaraeon Cymru â'r her ariannol ar gyfer 2024-25 trwy gam gweithredu a liniarodd effaith toriadau ar bartneriaid chwaraeon yn y byrdymor

- 34 Mae'n bwysig bod gan gyrff gynlluniau eglur y gellir eu cyflawni i helpu i fantoli'r gyllideb. Mae cynllunio camau gweithredu, boed yn greu incwm neu'n gyflawni arbedion, dros nifer o flynyddoedd yn gallu helpu i sicrhau bod cyrff mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gall helpu i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gynllunio'n effeithiol a rhoi cynigion ar waith, gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyflawni gweithgarwch cynnwys effeithiol ac archwilio cyfleoedd i gydweithio.
- 35 Cyflwynodd Chwaraeon Cymru bapur ar y gyllideb gerbron cyfarfod bwrdd eithriadol ym mis Ionawr 2024 a oedd yn nodi sut y byddai'n cau'r bwlch rhagamcanol o £2.5 miliwn yn ei gyllid. Roedd y papur yn nodi opsiynau i ymdrin â'r bwlch yn ei gyllid, ynghyd â'u gwerth a disgrifiad lefel uchel o'r canlyniadau posibl.
- 36 Cynhaliodd Chwaraeon Cymru asesiad effaith hefyd i archwilio canlyniadau gostyngiadau amrywiol i gyllid partneriaid ac opsiynau eraill i gyflawni arbedion. Fe wnaeth yr asesiad effaith ei ysgogi i ystyried nodau llesiant cenedlaethol y Ddeddf a sut i gymhwyso'r pum ffordd o weithio. Fe oleuodd drafodaethau ynglŷn â'r gyllideb, gyda phapurau'n nodi y gallai'r sefyllfa ariannol arafu cynnydd tuag at y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, ac effeithio'n negyddol ar rai grwpiau.
- 37 Wrth ymateb i'r bwlch yn y cyllid ar gyfer 2024-25, roedd Chwaraeon Cymru'n awyddus i gadw ei fodel buddsoddi. Mae'r model buddsoddi'n blaenoriaethu cyllid i bartneriaid a all dyfu cyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig ar gyfer grwpiau â chyfraddau cyfranogi is. Cyfeiriodd Chwaraeon Cymru at y model buddsoddi drwy'r asesiad effaith.
- 38 Adnabu Chwaraeon Cymru fesurau a'i galluogodd i drosglwyddo dim ond cyfran o'r toriad yn y cyllid a gafodd i'w bartneriaid a oedd yn llai na'r hyn y byddai wedi ei drosglwyddo fel arall o bosibl. Cafodd Chwaraeon Cymru gymeradwyaeth

Llywodraeth Cymru i ddefnyddio £1.5 miliwn o danwariannau¹¹ o 2023-24 i wneud taliadau a oedd, i bob pwrpas, yn flaensymiau grant ar gyfer 2024-25 ar ddiwedd mis Mawrth 2024.

- 39 Canfu Chwaraeon Cymru arbedion effeithlonrwydd mewnol o £200,000. Serch hynny, roedd yn dal yn angenrheidiol iddo ostwng cyllid partneriaid o £800,000 ar gyfer 2024-25. Cyfrifodd Chwaraeon Cymru fod hyn yn cyfateb i ostyngiad o 3.5% yng nghyllidebau dangosol partneriaid ar gyfer 2024-25.
- 40 Pennodd Chwaraeon Cymru gyllideb ar gyfer 2024-25 gyda diffyg o £504,000. Fe gyllidebodd i dalu uchafswm y cyllid tybiedig i bartneriaid ond tybiodd na fyddai rhai sefydliadau'n ateb y gofynion o ran y fframwaith gallu¹² ac felly na fyddent yn cael eu dyraniadau llawn. Byddai hyn yn arwain at danwariannau. Mae Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu dull tebyg, gan bennu cyllideb sy'n arwain at ddiffyg dros y blynnyddoedd diwethaf.
- 41 Fel a nodir ym **mharagraff 24**, cafodd Chwaraeon Cymru gyllid referniw ychwanegol o £1.0 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2024, a drosglwyddodd yn llawn i bartneriaid. Fodd bynnag, fe ddibynnodd Chwaraeon Cymru, i raddau sylweddol, ar danwariant 2023-24 i'w helpu i osgoi trosglwyddo toriad mwy i bartneriaid ddechrau 2024-25. Mesur untro oedd hwn ac nid aeth i'r afael â'r bwlch sylfaenol yn y cyllid ar gyfer blynnyddoedd yn y dyfodol. Cydnabu Chwaraeon Cymru hyn yn ei bapurau ar y gyllideb ar gyfer 2024-25.

Yn ddiweddar mae Chwaraeon Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig ond gallai ehangu hwn i gynnwys ffactorau ehangach ategu penderfyniadau yn y dyfodol

- 42 Mae dull strategol o ategu cynaliadwyedd ariannol yn bwysig. Mae'n darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn helpu cyrff i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i daro cydbwysedd rhwng ystyriaethau o ran polisi ac ystyriaethau o ran darparu adnoddau, yn enwedig wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg.
- 43 Mae Chwaraeon Cymru wedi cymryd cam cadarnhaol yn ddiweddar i ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig. Mae'n darparu golwg tymor hwy ar ei ragolygon ariannol. Mae'n modelu pwysau o ran cyllid ac o ran costau dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n cynnwys senarios mwyaf tebygol, gorau, a gwaethaf ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyllid y loteri. Mae hefyd yn darparu naratif byr ar gyllid y Llywodraeth a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau.

¹¹ Roedd y rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud ag arian na chafodd ei dalu i sefydliadau partner nad oeddent wedi ateb gofynion llywodraethu Chwaraeon Cymru.

¹² Mae Chwaraeon Cymru'n defnyddio ei Fframwaith Gallu fel y sail ar gyfer cyllido sefydliadau. Pan fo partneriaid chwaraeon yn ceisio buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru rhaid iddynt gwblhau hunanasesiad yn erbyn y fframwaith.

- 44 Mae modelu o'r fath yn elfen allweddol o gynllun ariannol tymor canolig. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i ehangu arno i ategu prosesau penderfynu a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith unrhyw newidiadau yn y cyllid. Gallai Chwaraeon Cymru archwilio ffactorau ychwanegol sy'n debygol o siapia ei gynaliadwyedd ariannol, a chynaliadwyedd ariannol y sector chwaraeon ehangach. Gallai hyn gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, risgiau perthnasol i'r sefydliad a'r sector, a goblygiadau ar gyfer cyflawni ei amcanion llesiant. Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym ei fod yn cymharu ei dybiaethau â chyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru. Bydd cyfleoedd i ehangu hyn wrth i gyrff eraill ddatblygu eu cynlluniau tymor canolig.
- 45 Mae'r gwaith modelu yn y cynllun ariannol tymor canolig yn tybio newid yn y statws pensiwn a fyddai'n cyflawni arbedion sylweddol. Cadarnhawyd y newid hwn ym mis Tachwedd 2024, gyda'r cynllun yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru pe bai Chwaraeon Cymru'n rhoi'r gorau i fodoli. Fe ysgogodd y newid mewn statws asesiad actiwaraidd, a adnabu warged. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau cyfraniad cyflogwr sylweddol is tan y prisiad teirblynyddol nesaf ym mis Ebrill 2026, gan arbed oddeutu £1 miliwn ym mhrif gyllideb Chwaraeon Cymru a £600,000 yn ei gyllideb gan y loteri ar gyfer 2025-26. Hefyd, mae'r newid mewn statws wedi arwain at arbediad cylchol gan nad yw taliadau diffyg yn ofynnol mwyach.
- 46 Fel a nodir ym **mharagraff 35**, adnabu Chwaraeon Cymru opsiynau arbedion fel rhan o broses cyllideb 2024-25. Ni ddefnyddiodd yr holl opsiynau hyn. Mae ei sefyllfa ariannol bellach yn llawer iachach ar gyfer 2025-26 oherwydd newidiadau pensiwn a chynnydd yn y cymorth grant. Fodd bynnag, gallai Chwaraeon Cymru gadw'r opsiynau arbedion hyn mewn golwg, gan hefyd ystyried cyfleoedd i fuddsoddi a chreu incwm, fel rhan o gynllunio ariannol parhaus yn y dyfodol.
- 47 Er bod Chwaraeon Cymru'n ystyried cyfleoedd i greu incwm, ceir cyfyngiadau o ran pa mor bell y gall fynd. Y ganolfan genedlaethol yw'r brif ffynhonnell incwm, ac mae incwm o'r fath wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rhaid i Chwaraeon Cymru geisio caniatâd gan Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd unrhyw fentrau creu incwm newydd.
- 48 Mae Chwaraeon Cymru'n datblygu trefniadau i fynegi'n well beth yw ei ddull o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cronfa ddosbarthu'r loteri. Ym mis Tachwedd 2024 fe gytunodd y Bwrdd ar bolisi cronfeydd wrth gefn y loteri genedlaethol a bennodd derfynau ar gyfer lefelau'r cronfeydd wrth gefn y gall eu dal. Bydd y polisi cronfeydd wrth gefn yn helpu Chwaraeon Cymru i gynllunio ar gyfer y gwahanol senarios cyllid yn ei gynllun ariannol tymor canolig ac ymateb iddynt.

Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati'n rheolaidd i fonitro ei sefyllfa ariannol ond nid oes trefniadau ganddo eto i asesu cynnydd tuag at ei amcanion llesiant a gwerthuso effaith gwahanol lefelau cyllid

- 49 Mae trefniadau adrodd eglur, rheolaidd a thryloyw'n bwysig i alluogi goruchwyliaeth effeithiol ar y sefyllfa ariannol, y camau gweithredu y mae cyrff yn eu cymryd i

sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol, a'r effaith ar eu rhanddeiliaid a'u hamcanion llesiant.

- 50 Mae Chwaraeon Cymru'n mynd ati'n rheolaidd i fonitro ei sefyllfa ariannol. Fe gyflwynodd gyfarfodydd adolygu'r gyllideb yn 2023. Mae'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid yn cwrdd â deiliaid cyllidebau i adolygu cyllidebau fesul llinell, ystyried pwysau o ran costau ac unrhyw danwariannau neu orwariannau. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi Chwaraeon Cymru i ymateb yn brydlon i faterion o ran y gyllideb.
- 51 Mae Chwaraeon Cymru'n adrodd mewn modd tryloyw ar y sefyllfa ariannol. Mae cyfarfodydd y tîm gweithredol yn ystyried gwybodaeth gryno o gyfarfodydd adolygu'r gyllideb. Mae adroddiadau chwarterol ar gyfer y Bwrdd yn crynhoi'r sefyllfa ariannol.
- 52 Ar adeg ein harchwiliad ni, nid oedd Chwaraeon Cymru wedi adnabod sut y byddai'n mynd ati'n ffurfiol i asesu effaith y newidiadau mewn cyllid i bartneriaid ar gyfer 2024-25 ar gyflawni ei strategaeth. Fodd bynnag, mae'n ymwybodol o'r effaith bosibl ar y sector ac ar gyflawni ei amcanion llesiant. Mae Chwaraeon Cymru'n disgrifio pwysigrwydd sgysiau parhaus ynghylch 'yr hyn sy'n bwysig' gyda phartneriaid. Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym fod y trafodaethau hyn yn cwmparu'r sefyllfa ariannol a goblygiadau newidiadau yn y cyllid ar gyfer partneriaid. Bydd hi'n bwysig dwyn yr wybodaeth ynghyd i ddeall yr effaith ar draws partneriaid.
- 53 Rydym wedi argymhell yn flaenorol y dylai Chwaraeon Cymru nodi mesurau perfformiad i gyd-fynd â'i amcanion llesiant ac i fonitro cynnydd o ran cymryd y camau i'w cyflawni¹³. Derbyniodd Chwaraeon Cymru'r argymhelliad hwn, gyda mis Mai 2025 wedi'i bennu fel dyddiad cwblhau. Wrth iddo ddatblygu mesurau o'r fath, bydd hi'n bwysig sicrhau bod unrhyw dargedau neu gerrig milltir yn adlewyrchu penderfyniadau ynghylch lefelau'r cyllid.

¹³ Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Archwilio'r adolygiad o amcanion llesiant](#), Mehefin 2024

Argymhellion

54 Rydym wedi codi dau argymhelliad y byddwn yn disgwyl i Chwaraeon Cymru ymateb iddynt.

Arddangosyn 1: ein hargymhellion

Cynllunio ariannol tymor canolig ar gyfer cynaliadwyedd ariannol

A1: Dylai Chwaraeon Cymru adeiladu ar ei gynllun ariannol tymor canolig trwy gynnwys ffactorau ychwanegol sy'n debygol o siapia ei gynaliadwyedd ariannol a chynaliadwyedd ariannol y sector chwaraeon ehangach. Dylai gynnwys:

- meysydd y gall fod angen buddsoddiad newydd neu ychwanegol ynddynt;
- risgiau, i'r sefydliad a'r sector chwaraeon, a allai effeithio ar adnoddau;
- opsiynau ar gyfer arbedion yn y dyfodol; a
- sut y bydd yn parhau i gyflawni ei amcanion llesiant a'r weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn y cyd-destun hwn.

Wrth iddo ddiweddarau ei waith modelu, dylai Chwaraeon Cymru chwilio am gyfleoedd i feincnodi'r tybiaethau gyda chyrff eraill. Dylai hon fod yn broses barhaus, yn hytrach nag ymarfer untro. (Gweler **paragraffau 44 i 46.**)

Mesur cynnydd ac asesu effaith

A2: Fe wnaethom argymell, ym mis Mehefin 2024, y dylai Chwaraeon Cymru roi disgrifiad eglur o fesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i amcanion llesiant ynghyd â mesurau ategol i fonitro cynnydd o ran cyflawni'r camau.

Wrth i Chwaraeon Cymru ddatblygu'r mesurau hyn, ac unrhyw dargedau neu gerrig milltir cysylltiedig, dylai ystyried ei strategaeth ariannol a newidiadau mewn lefelau cyllid. Bydd hyn yn ei helpu i ddiffinio ei uchelgeisiau a deall cynnydd tuag at ei amcanion yng nghyd-destun ei sefyllfa ariannol. (Gweler **paragraff 53.**)

Atodiad 1

Ynglŷn â'n gwaith

Cwestiwn, cwmpas a meini prawf yr archwiliad

Ein nod oedd archwilio i ba raddau y mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ei drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mewn perthynas â chynllunio ariannol, byddem yn disgwyl bod cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cynnwys ystyried yr angen i:

- ymateb i bwysau ariannol uniongyrchol, gan gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd ar yr un pryd.
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, fel bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd dros y tymor canolog a hwy.
- gwireddu uchelgeisiau strategol, fel y'u disgrifir trwy amcanion llesiant y sefydliad. Mae hyn yn ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid a dinasyddion a'r angen i gyflawni unrhyw fanteision ataliol, tymor hwy.

Rydym wedi nodi ein cwestiynau a meini prawf archwilio generig isod. Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronnydd, canllawiau CIPFA, ac adolygiadau cysylltiedig Archwilio Cymru mewn sectorau eraill. Fe wnaethom hefyd dynnu ar y 'dangosyddion cadarnhaol' yr ydym wedi eu defnyddio mewn archwiliadau blaenorol o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Hefyd, fe wnaethom ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth gynllunio'r archwiliad hwn.

Roeddem yn ceisio deall yr heriau ariannol sy'n wynebu Chwaraeon Cymru a sut y mae'n ymateb. Fodd bynnag, ni wnaethom ystyried pob ffactor sydd wedi effeithio, neu a allai effeithio, ar ei gynaliadwyedd ariannol. Ni wnaethom adolygu manylion y mesurau penodol y mae'n eu rhoi ar waith i ymateb i'r heriau hynny na'i brosesau blynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb ychwaith.

Mae ein gwaith yn Chwaraeon Cymru yn rhan o archwiliad ehangach sydd hefyd yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r cwestiynau a'r meini prawf yn amrywio o ran eu perthnasedd i bob un o'r pedwar corff. Fe wnaethom ystyried hyn yn ystod ein gweithgarwch casglu tystiolaeth ac adrodd.

Byddwn yn ystyried adrodd ar wahân ar unrhyw faterion cyffredin a adnabuwyd trwy ein gwaith ar draws y pedwar corff a gwmpesir gan ein harchwiliad ehangach.

Arddangosyn 2: cwestiynau a meini prawf archwilio

Yng nghyd-destun gostyngiadau i gymorth grant refeniw ar gyfer 2024-25, a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a hwy, yn unol â'i amcanion llesiant?

A oes gan y corff ddealltwriaeth eglur am ei sefyllfa ariannol gyfredol a'i ragolygon tymor canolog a risgiau tymor hwy?	• Mae'r corff wedi asesu ei ragolygon ariannol ac wedi cyfrifo unrhyw fwlch yn y cyllid dros y tymor byr a chanolig yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol. • Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid, yr uwch dîm rheoli a'r bwrdd ill tri ddealltwriaeth eglur am sefyllfa ariannol gyfredol y corff a'i ragolygon tymor canolig, a sut y mae hynny'n cymharu â chyrff tebyg. • Mae'r corff wedi adnabod y risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol, gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth eang sy'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol. Gallai hyn gynnwys cynnydd yn y galw, gofynion newydd, a safbwyntiau dinasyddion.
A oes gan y corff ddull strategol eglur i helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy a chyflawni ei amcanion llesiant?	• Mae'r corff wedi nodi'n glir beth yw ei ddull strategol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, gyda golwg ar y tymor hwy. • Mae dull strategol y corff o ymdrin â chynaliadwyedd ariannol wedi cael ei ddatblygu gan ystyried y weledigaeth ehangach, y strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant. • Mae dull strategol y corff o ymdrin â chynaliadwyedd ariannol yn cael ei gefnogi gan uwch reolwyr a'r bwrdd. • Mae'r corff wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor a chyflawni ei amcanion llesiant, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill. • Mae dull strategol y corff yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn modd strategol i reoli ei heriau ariannol dros y tymor canolig. • Mae'r corff wedi modelu effaith ddisgwyliedig ei ddull strategol o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau, cau adeiladau, codiadau mewn ffioedd, gostyngiadau mewn grantiau) a'r effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar yr amcanion llesiant a dinasyddion/rhanddeiliaid.
A yw'r corff wedi adnabod sut y bydd yn ymateb i'w heriau ariannol dros y tymor byr a chanolig, yng nghyd-destun ei amcanion llesiant?	• Mae gan y corff hanes o ymdrin yn llwyddiannus â heriau ariannol. • Mae'r corff wedi adnabod y camau gweithredu, gan gynnwys unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud, i ymateb i'w heriau ariannol dros y tymor byr a chanolig, a ategir gan gynlluniau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda a thybiaethau rhesymol.

	• Mae gan y corff drefniadau i ddatblygu camau gweithredu (gan gynnwys cynigion ar gyfer arbedion) i ymateb i'w heriau ariannol, a'r rheiny'n gysylltiedig â'u cyfraniad i gyflawni'r amcanion llesiant. • Mae trefniadau'r corff yn sicrhau y gall ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu hyn (e.e. cynigion ar gyfer arbedion), gan gynnwys barn rhanddeiliaid.
A yw'r corff yn monitro ei gynaliadwyedd ariannol, y modd y cyflawnir arbedion a'r effaith ar yr amcanion llesiant ac yn ceisio dysgu a gwella?	• Mae gan y corff drefniadau priodol i fynd ati'n rheolaidd i fonitro ei sefyllfa ariannol, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolog a hir. • Mae gan y corff drefniadau i adrodd yn dryloyw ar effaith wirioneddol/ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion llesiant a'i rhanddeiliaid/dinasyddion wrth y bwrdd, phwyllgorau, a dinasyddion eraill. • Mae'r corff yn nodi graddfeydd amser ar gyfer cyflawni arbedion ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran eu cyflawni wrth uwch reolwyr, y bwrdd, a phwyllgorau perthnasol i alluogi goruchwyliaeth a chraffu i ddigwydd. • Mae'r corff ar y trywydd iawn gyda chynlluniau i gyflawni arbedion yn 2024-25 a'r tu hwnt. • Mae'r corff yn ymwybodol o gryfderau/gwendidau yn ei ddull ac mae'n ceisio dysgu a gwella.

Dulliau archwilio

Fe gynhaliom ni ddadansoddiad lefel uchel o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru, a oedd yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd rhwng 2019-20 a 2023-24 i'n helpu i ddeall ei sefyllfa ariannol a sut y mae honno wedi newid.

Fe wnaethom adolygu dogfennau gan gynnwys strategaeth Chwaraeon Cymru a'i amcanion llesiant, gwybodaeth a oedd ar gael am gynllunio ariannol, adroddiadau monitro perthnasol, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd perthnasol y Bwrdd a phwyllgorau. Fe wnaethom hefyd gyfweld â detholiad o uwch aelodau o staff ac aelod o'r bwrdd.

Fe gasglom ni ein tystiolaeth rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2024 ac fe wnaethom adolygu cyfrifon terfynol Chwaraeon Cymru ar gyfer 2023-24 ym mis Tachwedd 2024.

Fe wnaethom rannu ein hadroddiad drafft gyda Chwaraeon Cymru ym mis Rhagfyr 2024.


Atodiad 2

Y sefyllfa ariannol yn Chwaraeon Cymru

Mae'r siartiau isod yn nodi rhagor o wybodaeth am y sefyllfa ariannol yn Chwaraeon Cymru. Nid yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys setiau data allweddol sy'n dangos y sefyllfa ariannol newidiol rhwng 2019-20 a 2023-24. Fe wnaethom seilio ein dadansoddiad ar ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru. Mae **Paragraffau 23 i 26** yn darparu gwybodaeth am gyllid ar gyfer 2024-25 a chyllid ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn cynnwys cymorth grant ac elfennau eraill am amser cyfyngedig.

Incwm


Arddangosyn 3: Incwm prif gyfrif Chwaraeon Cymru yn ôl ffynhonnell, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru

Nodyn: Nid yw'r prif gyfrif yn cynnwys incwm o'r loteri. Mae'r categori 'grantiau eraill ac incwm arall' yn cynnwys ffynonellau incwm lluosog. Er enghraifft, mae'n cynnwys incwm mewnl o arlwy, aelodaeth o ganolfannau ffitrwydd a chysiau. Mae hefyd yn cynnwys cyllid am amser cyfyngedig o Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden Llywodraeth Cymru yn 2020-21 a 2021-22, a grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru. Dyma oedd yn gyfrifol am y lefelau uwch o incwm ar gyfer y blynyddoedd hynny.


Arddangosyn 4: Incwm cymorth grant Chwaraeon Cymru mewn termau gwirioneddol a chan ddefnyddio cymhariaeth ddamcaniaethol mewn termau real, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru

Nodyn: Ar gyfer ein dadansoddiad mewn termau real, fe ddefnyddiom ni ddatchwyddyddion GDP Trysorlys EF yn ôl prisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Mae'r gymhariaeth mewn termau real yn dangos beth fyddai'r cymorth grant wedi bod rhwng 2020-21 a 2023-24 pe bai wedi codi yn ôl yr un gyfradd â chwyddiant ar ôl 2019-20.

Arddangosyn 5: Enillion Chwaraeon Cymru o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol mewn termau gwirioneddol a chan ddefnyddio cymhariaeth ddamcaniaethol mewn termau real, rhwng 2019-20 a 2023-24




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru

Nodyn: Ar gyfer ein dadansoddiad mewn termau real, fe ddefnyddiom ni ddatchwyddyddion GDP Trysorlys EF yn ôl prisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Mae'r gymhariaeth mewn termau real yn dangos beth fyddai'r enillion o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi bod rhwng 2020-21 a 2023-24 pe baent wedi codi yn ôl yr un gyfradd â chwyddiant ar ôl 2019-20. Nid yw'r gymhariaeth hon yn cynnwys elfennau llai o gyllid Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys incwm buddsoddi ar falansau o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.


Gwariant

Arddangosyn 6: Gwariant prif gyfrif Chwaraeon Cymru yn ôl math, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru

Arddangosyn 7: Gwariant cronfa ddsbarthu'r loteri Chwaraeon Cymru yn ôl math, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Chwaraeon Cymru



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.